Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel gweithgarwch dilynol: Monitro gan Estyn

**A4e Cymru Cyf**
**Y Warws**
**School Lane**
**Casnewydd**
**NP20 1LE**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Mark Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod A4e Cymru Cyf wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ionawr 2014.

O ganlyniad, bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw A4e Cymru Cyf o'r rhestr o ddarparwyr y mae angen eu monitro gan Estyn. Bydd Estyn yn parhau i fonitro rhaglen wella'r darparwr trwy ymweliadau gan yr arolygydd cyswllt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella'r cyfraddau y mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau arnynt yn llwyddiannus

Cynnydd cadarn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r darparwr wedi gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu hyfforddiant a'u cymwysterau arnynt. Mae cyfraddau llwyddo dysgwyr wedi gwella yn y rhaglenni sylfaen a'r rhaglenni prentisiaeth. Mae dysgwyr sy'n dilyn y rhaglenni hyn yn cyflawni eu cymwysterau ar gyfraddau tebyg i gyfartaledd y sector. Ers cyfnod yr arolygiad diwethaf, mae cyfraddau llwyddo yn y rhaglen hyfforddeiaethau wedi gwella'n sylweddol ac maent yn debyg i gyfartaledd y sector. Fodd bynnag, mae cyfraddau ar gyfer dilyniant cadarnhaol i gyflogaeth neu'r lefel hyfforddi nesaf wedi disgyn ychydig. Mae cyfraddau llwyddo dysgwyr wedi gwella'n sylweddol yn rhaglen hyfforddeiaeth lefel 1 ac maent ychydig uwchlaw cyfartaledd y sector. Bu gwelliant yn y gyfradd y mae dysgwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth neu'r lefel hyfforddi nesaf arni.

Mae cyfradd llwyddo dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni cyflogadwyedd wedi gwella'n sylweddol. Mae dysgwyr ar y rhaglenni hyn yn cyflawni'u cymwysterau a'u cynlluniau dysgu unigol ar gyfraddau sydd uwchlaw cyfartaledd y sector.

Mae'r darparwr wedi gostwng yn sylweddol nifer y dysgwyr sy'n cymryd mwy na'r amser a fwriadwyd i gwblhau eu rhaglenni.

### Argymhelliad 2: Gwella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r darparwr wedi cyflwyno ystod briodol o strategaethau a gweithdrefnau i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. O ganlyniad i hyn, mae dull mwy systematig o ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr ac mae disgwyliadau cliriach i staff a dysgwyr. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys canllaw defnyddiol i diwtoriaid ar farcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr ac adolygu portffolios yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r canllaw'n rhoi arweiniad clir ar sut y dylai tiwtoriaid roi adborth ysgrifenedig adeiladol ar waith dysgwyr.

Bellach, mae gan diwtoriaid ac aseswyr fwy o ffocws ar integreiddio llythrennedd a rhifedd i addysgu a dysgu. Mae dysgwyr yn elwa o gymorth llythrennedd a rhifedd mewn llawer o sesiynau. Mae staff y darparwr yn cymryd rhan effeithiol mewn ystod

gynhwysfawr o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus. O ganlyniad, mae llawer o staff wedi gwella'u dealltwriaeth o sut i roi lefelau da o gymorth i ddysgwyr. Mae ffocws gwell gan y darparwr ar nodi a rhannu arfer orau. Felly, mae dysgwyr wedi elwa ar lefelau cymorth gwell sy'n eu helpu i ddatblygu eu llythrennedd a'u rhifedd. Fodd bynnag, nid yw pob tiwtor ar hyn o bryd yn marcio gwaith dysgwyr yn gyson ac yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol a chlir ar sut y gallant wella'u perfformiad.

Mae tiwtoriaid yn herio dysgwyr i gyflawni medr hanfodol ar lefel uwch pan fo hynny'n briodol. Mae nifer y dysgwyr sy'n cyflawni cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) wedi cynyddu'n sylweddol ers cyfnod yr arolygiad diwethaf. Mae'r darparwr wedi datblygu dogfen weithdrefn ddefnyddiol ar SHC ac fe'i defnyddir gan diwtoriaid ac aseswyr i gyfeirio dysgwyr at y lefel cymorth mwyaf priodol. Mae tiwtoriaid wedi gwella cynllunio gwersi ac wedi ehangu ystod yr adnoddau addysgu a dysgu sydd ar gael. Mae hyn wedi arwain at gynyddu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr a gwella deilliannau.

**Argymhelliad 3: Rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg**

Cynnydd cadarn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r darparwr wedi cryfhau'n sylweddol y ffordd y mae'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u cynorthwyo.

Mae'r darparwr wedi ffurfio grŵp datblygu'r Gymraeg. Nod allweddol y grŵp hwn yw datblygu'r strategaeth i wella medrau Cymraeg dysgwyr a sicrhau bod yr holl weithgareddau yn y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Erbyn hyn, mae gan y darparwr ffocws cryfach ar bwysigrwydd datblygu medrau Cymraeg dysgwyr. Mae'r darparwr wedi dyrannu cyllideb i gefnogi datblygiad deunyddiau hyfforddi ac asesu Cymraeg a datblygiad proffesiynol parhaus Cymraeg i diwtoriaid ac aseswyr. Mae'r darparwr yn cofnodi cyrhaeddiad dysgwyr mewn cymwysterau Cymraeg yn effeithiol yn ei system gwybodaeth reoli. Mae'r darparwr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fonitro ac adolygu perfformiad dysgwyr.

Mae darparwr yn rhoi ffocws llawer cadarnach ar bwysigrwydd medrau Cymraeg yn ystod cyfnod sefydlu dysgwyr. Trwy hyn, mae'r darparwr wedi cryfhau hyrwyddo'r Gymraeg yn sylweddol. Mae dysgwyr bellach yn dangos gwell dealltwriaeth o fudd bod yn ddwyieithog a sut gallai'r gweithle elwa o bosibl.

Mae'r darparwr wedi defnyddio holiadur yn effeithiol i adolygu anghenion Cymraeg cyflogwyr. Yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr, mae'r darparwr wedi paru anghenion Cymraeg cyflogwyr â'r dysgwyr mwyaf priodol ar gyfer lleoliadau. Mae wedi nodi staff dwyieithog i gefnogi'r cyflogwyr a'r dysgwyr hyn ac wedi darparu hyfforddiant ar y Gymraeg i bob aelod staff.

Yn dilyn ad-drefnu hyfforddi ac asesu yng ngogledd Cymru, caiff dysgwyr gyfle i ymgymryd â'u hyfforddiant yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n hyfforddi ac yn cael eu hasesu'n ddwyieithog. Mae medrau Cymraeg yn rhan orfodol o raglen pob dysgwr. Mae tua chwarter y dysgwyr sy'n dilyn y rhaglen hyfforddeiaethau yn ymgymryd â chymhwyster Cymraeg yn y Gweithle.

**Argymhelliad 4:  Gwella ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu**

Cynnydd cadarn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

At ei gilydd, gwnaed cynnydd da i wella ansawdd addysgu, hyfforddi ac asesu.  Mae'r darparwr wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith i wella addysgu a hyfforddi ar draws y sefydliad.  Mae'r strategaethau hyn wedi dechrau cael effaith gadarnhaol a gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau arnynt.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio cynlluniau gwersi cynhwysfawr, safonedig.  Cynlluniant eu sesiynau'n dda a defnyddiant amrywiaeth dda o adnoddau addysgu a dysgu, er enghraifft defnyddio dyddiaduron bwyd a phlatiau bwyta'n iach i annog dysgwyr i newid eu deiet a'u harferion bwyta er mwyn bod yn iachach.  Mae'r darparwr wedi dechrau defnyddio adnoddau ar-lein, gan gynnwys rhaglenni dysgu cyfrifiadurol mewn nifer o feysydd pwnc, fel gweinyddu busnes a cherbydau modur.  Mewn ychydig sesiynau a addysgir, mae llechi ar gael i ddysgwyr eu defnyddio yn y dosbarth.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymroi i weithgareddau'r ystafell ddosbarth ac yn cydweithio'n dda mewn parau neu grwpiau bychain.  Mae tiwtoriaid yn herio dysgwyr yn dda ac yn addasu cyflymder sesiynau a addysgir yn effeithiol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd.  Yn aml, mae tiwtoriaid yn gweithio mewn parau i gyflwyno sesiynau a addysgir.  Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu'n dda ar gyfer lefelau medrau amrywiol yr ystod dysgwyr.  Darparant gymorth da i'r dysgwyr ag anghenion amrywiol sydd, efallai, ag angen mwy o ystyriaeth yn y dosbarth.  Mae tiwtoriaid ac aseswyr wedi gwella'u ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr.  Maent yn cynnwys datblygiad llythrennedd a rhifedd yn dda mewn sesiynau a addysgir.

Mae asesu medrau ymarferol dysgwyr yn dda.  Mae aseswyr yn cynllunio asesiadau tasgau galwedigaethol yn dda ac yn rhoi cynlluniau gweithredu clir i ddysgwyr er mwyn iddynt baratoi ar gyfer eu hasesiad nesaf.  Lle y bo'n briodol, mae aseswyr yn gweithio gyda dysgwyr i gwblhau unedau NVQ ar lefel uwch i ychwanegu at eu portffolio o gymwysterau.

**Argymhelliad 5:  Sicrhau bod pob un o'r staff a'r isgontractwyr yn cymhwyso'i weithdrefnau gweithredol yn gyson ar draws y ddarpariaeth**

Cynnydd cadarn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r darparwr wedi cryfhau ei waith partneriaeth â'i isgontractwyr, a'i reolaeth arnynt.  Ar draws y darparwr a'i isgontractwyr, caiff gweithdrefnau gweithredol eu rhannu'n glir ac mae rheolwyr a thiwtoriaid yn eu defnyddio'n fwy cyson.

Mae'r darparwr wedi datblygu gwell gweithdrefnau sicrhau ansawdd a ddefnyddir yn gyson ar draws isgontractwyr.  Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau arnynt ac wedi gwella dilyniant dysgwyr i'r lefel hyfforddi neu waith nesaf.

Mae'r ddau is-gontractwr partner yn ymroi'n llwyr i ystod gynhwysfawr o ddatblygiadau strategol a gweithredol y darparwr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dogfennau safonedig, cyd-arsylwi addysgu ac asesu staff, nodi a rhannu arfer orau a hyfforddiant ar y cyd ar gyfer datblygu staff. Mae cyswllt rheolaidd ac ystod briodol o gyfarfodydd wedi'u trefnu rhwng y darparwr a'i isgontractwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhannu gwybodaeth a datblygiadau, yn gosod ac yn monitro targedau perfformiad ac yn rhannu arfer orau yn effeithiol.

Mae rheolwyr y darparwr yn cynnal rhaglen o adolygiadau rheolaidd o hyfforddwyr ac aseswyr y darparwr a'r isgontractwyr. Mae'r adolygiadau hyn yn rhan allweddol o'i strategaeth i wella ansawdd a chysondeb addysgu a dysgu. Yn ystod yr adolygiadau hyn, mae ffocws allweddol ar sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio strategaeth a pholisi'r darparwr ar lythrennedd a rhifedd yn gyson i gefnogi dysgwyr.

**Argymhelliad 6: Gwneud yn siŵr bod pob tiwtor a dysgwr yn cael cyfle i ddefnyddio adnoddau dysgu ar-lein**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae'r darparwr wedi gosod WIFI yng nghanolfannau hyfforddi Abertawe, Port Talbot, Porth ac Aberdâr. Mae hyn yn wedi galluogi dysgwyr a staff i gael at ddeunyddiau addysgu a dysgu ar-lein.

Mae'r darparwr wedi sefydlu grŵp prosiect i adolygu a datblygu strategaeth i sicrhau bod ei anghenion technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n cael eu bodloni. Mae wedi datblygu cynllun prosiect manwl i ddatblygu a chyflwyno amgylchedd dysgu rhithwir. Mae'r datblygiad hwn yn cael cefnogaeth dda gan dîm rheoli A4e yn y pencadlys. Mae'r cynllun yn mynd rhagddo yn ôl yr amserlen a disgwylir y bydd yr amgylchedd dysgu rhithwir yn "fyw" ddiwedd Chwefror 2015.

Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn prynu llechi i diwtoriaid a dysgwyr eu defnyddio mewn sesiynau a addysgir.